

CYFARFOD: PWYLLGOR PENSIYNAU

DYDDIAD: 6 GORFFENNAF 2026

TEITL: FFORWM CRONFA BENSIWN AWDURDODAU LLEOL (LAPFF)

PWRPAS: Cyflwyno diweddariad ar weithgareddau'r fforwm

ARGYMHELLIAD: Nodi cynnwys yr adroddiad

AWDUR: DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI CYNGHORYDD STEPHEN CHURCHMAN

1. Cyflwyniad

Mae Fforwm Cronfa Bensiwn Awdurdodau Lleol (LAPFF) yn hyrwyddo'r safonau uchaf o lywodraethu corfforaethol i ddiogelu gwerth hirdymor cronfeydd pensiwn awdurdodau lleol.

Mae'r Cyngorydd Stephen Churchman yn aelod o Fwrdd Gweithredol LAPFF ac mae'n rhoi mewnbwn gwerthfawr i waith y fforwm.

2. Fforwm Cronfa Bensiwn Awdurdodau Lleol (LAPFF)

Mae'r LAPFF yn grŵp cyfranddalwyr cydweithredol o gronfeydd pensiwn sector cyhoeddus y DU sy'n defnyddio asedau cyfunol ei aelodau i hyrwyddo safonau uchel o lywodraethu corfforaethol, cyfrifoldeb amgylcheddol, ac arferion busnes moesegol.

Mae gweithgareddau allweddol y fforwm yn cynnwys:

- Ymgysylltu â Chwmnïau'n Uniongyrchol:** Ymgysylltu'n uniongyrchol â chadeiryddion a byrddau cwmnïau i ddylanwadu ar bolisïau busnes a chyfansoddiadau byrddau.
- Materion ESG:** Pwyso ar gorfforaethau mawr i reoli risgiau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG), gan gynnwys newid yn yr hinsawdd a materion hawliau dynol.
- Goruchwylio lawndal Gweithredol:** Herio achosion o gyflog gweithredol gormodol a sicrhau cyfrifyddu corfforaethol dibynadwy.
- Dylanwad Polisi:** Ymateb i ymgynghoriadau'r llywodraeth a rheoleiddiol i lunio deddfau buddsoddi a diogelu hawliau cyfranddalwyr.

Ceir rhagor o wybodaeth yn Atodiad 1.

Bydd y Cyngorydd Stephen Churchman yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar lafar ar waith a datblygiadau diweddaraf y fforwm.

3. Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.